**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
SeneddHousing@senedd.cymru

10 Tachwedd 2022

Annwyl John

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Tachwedd ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil"). Rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau isod.

**Cymal 187 (Crwydraeth a chardota)**

Mae fy swyddogion wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol ac yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i ddeall bwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer y cymal hwn o'r Bil. Yn anffodus, nid yw penderfyniad wedi'i wneud eto ac felly ni allwn roi unrhyw eglurder i chi ar y newidiadau posib y gall Llywodraeth y DU eu gwneud ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar yr elfen hon o'r Bil gan ddiweddaru'r Pwyllgor ar ôl i ni gael eglurhad.

**Goblygiadau ariannol**

Cymal 1 - 6 (Ymgyrch Ffyniant Bro)

Effaith y darpariaethau yw gosod dyletswydd ar Lywodraeth y DU i osod, ac adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni, ymgyrchoedd ffyniant bro i leihau anghyfartaledd daearyddol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r gofyniad i adrodd ar gyflawni ymgyrchoedd ffyniant bro, a chraffu seneddol ar gynnydd yn erbyn yr ymgyrchoedd hyn yn gost i Lywodraeth y DU ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar Gymru. Mae effaith y camau gweithredu ffyniant bro a wnaed gan Lywodraeth y DU i gyflawni'r ymgyrchoedd hyn y tu allan i gwmpas y Bil.

Cymalau dalfan: Cymal 96 (Pleidleisiau stryd) a Chymal 187 (Crwydraeth a chardota)

Pan fo darpariaethau'n ddarpariaethau dalfan, nid yw'r cymal yn cynnwys y manylion angenrheidiol i mi nodi a fydd unrhyw oblygiadau ariannol ar Gymru.

Rhan 3 (Cynllunio)

Bydd gan y newidiadau i'r system gynllunio o dan ran 3 i gyd gostau ymgyfarwyddo sy'n gysylltiedig â'r newid. Awdurdodau lleol, busnesau (gan gynnwys busnesau bach a chanolig), a'r trydydd sector lle maent yn cymryd rhan yn y system fydd yn gyfrifol am y gost untro hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymal 75,76,77,79,80,81 (Data cynllunio)
Bydd y newidiadau i'r ddarpariaeth, prosesu a gofynion data cynllunio yn golygu costau ariannol i awdurdodau lleol a'r rhai sy'n ymwneud â rhannau penodol o'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd ond yn dod i rym yng Nghymru mewn dau faes cyfyngedig. Yn gyntaf, mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gweithredu mewn meysydd heb eu datganoli, er enghraifft ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Bwys Cenedlaethol (NSIP). Yn ail, mae'r darpariaethau ar hyn o bryd yn berthnasol o ran swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 5 o'r Bil (Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol).
Felly, pan sbardunir Adroddiad NSIP, neu Ganlyniad Amgylcheddol byddant yn ddarostyngedig i'r gofynion. Mewn meysydd eraill nid yw'r safonau yn berthnasol. Bydd hyn yn creu system ddeuol bosibl o ddata cynllunio yng Nghymru a fydd yn creu anghysondeb, gan gynyddu costau i ddefnyddwyr y system gynllunio.  Felly, ni fyddai'n rhoi y buddion llawn a nodwyd yn y Bil drwy bontio i system gynllunio digidol gan na fydd yn berthnasol i'r system gyfan yng Nghymru.

Cymal 112 (Rheoliadau a Gorchmynion o dan y Deddfau Cynllunio)
Mae'r cymal hwn yn ymwneud â diwygiadau cyfreithiol technegol i'r pwerau cyffredinol i wneud offerynnau statudol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990. Mae'r gwelliant yn welliant cyfreithiol technegol bach gyda'r nod o wneud y sefyllfa gyfreithiol yn glir. Nid oes canlyniadau ariannol o ganlyniad i'r newid.

Cymal 116-130 (Adroddiad canlyniadau'r amgylchedd)
Ar hyn o bryd mae'r darpariaethau yn y Bil yn darparu ar gyfer un pŵer cyffredinol i wneud darpariaethau mewn perthynas ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol i gyd-fynd â'r ddau gynllun strategol, a chaniatadau prosiect perthnasol. Mae gan y system newydd o adrodd canlyniadau amgylcheddol botensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd drwy symleiddio cydsynio.

Cymal 186 (Adolygiad o lywodraethu ac ati o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS))
Bydd y cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gomisiynu adolygiadau cyfnodol o RICS a fydd yn rhoi gwybodaeth i'r llywodraeth am lywodraethu a pherfformiad RICS, er mwyn bodloni ei hun bod RICS yn perfformio er budd y cyhoedd. Does dim costau i Gymru.

Rwy'n bwriadu gosod LCM diwygiedig sy'n cynnwys yr wybodaeth ychwanegol hon am yr effaith ariannol, yn ogystal â mynd i'r afael â phwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, cyn gynted â phosibl.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paul Davies AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davis AS.

Yn gywir



**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd